**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Andrew RT Davies AS
Cadair - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Mehefin 2025

Annwyl Andrew,

**Adolygiad o'r Cymorth i Fusnesau**

Mae'n dda clywed am gynlluniau Pwyllgor ETRA a gallaf gadarnhau fy mod wedi gofyn i'm swyddogion gynnal adolygiad o'r Cymorth i Fusnesau, i gynnwys:

- dadansoddiad o'r hyn y mae Cymru yn ei gael ar gyfer ein gweithgareddau Cymorth Busnes, ac a yw'n cyfateb i feysydd yr economi lle ceir y cyfleoedd gorau a'r anghenion mwyaf;
- argymhellion o ran cyfran yr adnoddau rydyn ni'n eu rhoi i wahanol sectorau;
- effaith ymyrraeth Llywodraeth y DU ym maes Cymorth Busnes yng Nghymru, a sut y dylem ategu cynigion ein gilydd;
- cyfeirio a chydlynu'r Cymorth Busnes sy'n cael ei gynnig yng Nghymru, gan gynnwys holl ganghennau Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich a'i phartneriaid cyflenwi; a
- cyfleoedd i wneud arbedion y gellir eu rhoi yn ôl i gefnogi economi Cymru.

Mae pawb am weld busnesau cynaliadwy yn creu mwy o dwf a mwy o fuddsoddiad, ond nid yw hynny ar ei ben eu hun yn dystiolaeth bod angen llwyr ailadeiladu'r modd y mae Cymorth Busnes yn cael ei ddarparu.  Nid wyf wedi cael fy argyhoeddi bod tystiolaeth gref y gallem fod yn hyderus y gallai symud i fodel gwahanol arwain at wasanaeth gwell am yr un gost, a rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng unrhyw enillion a allai ddod o alinio'n well y gwasanaethau sydd eu hangen ar y naill law a'r costau, oedi ac amharu posibl, heb sôn am faterion rheoleiddio ar y llall.

Byddaf felly yn chwilio am gyfleoedd i wneud newidiadau ymarferol y gellir eu gwneud yn gyflym.  Bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan dîm gweithrediadau grŵp yr Economi, a byddant yn chwilio am arbenigwyr annibynnol i'w helpu, fwy na thebyg gyfarwyddwr anweithredol yn Llywodraeth Cymru.  Rwy'n gobeithio cael cyngor gan Weinidogion erbyn mis Medi, er mwyn gallu rhoi opsiynau rwy'n cytuno arnynt ar waith o fewn tymor presennol y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid gwasanaethau Llywodraeth Cymru a DBW yn unig fydd yn cael eu hadolygu. Adolygir hefyd y pethau y gwnaethom ymrwymo iddynt yn ein hymateb i argymhelliad eich Pwyllgor, sef ystyried lle mae angen cryfhau ymhellach y rhyngwyneb rhwng gwasanaethau a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau.

Yn y cyfamser, rydw i wedi cael cyfarfod defnyddiol iawn gyda Ffederasiwn y Busnesau Bach., a fydd yn cyhoeddi ei adroddiad ei hun cyn hir. Byddaf wrth reswm yn ystyried tystiolaeth arall.  Bydd gen i ddiddordeb hefyd yng nghanlyniad gwaith eich Pwyllgor ar y Cytundebau Twf Dinesig a Rhanbarthol ac edrychaf ymlaen at weld hwnnw maes o law.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning